**GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEDI 2020**

## Aelodau

| | |
|---|---|
| Hannah Blythyn AS | Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Dirprwy Gomander Nick Lock | Brigâd 160 y Milwyr Traed (Cymru) |
| Awyr-gomander Albie Fox | Yr Awyrlu Brenhinol |
| Awyr-lefftenant Ella Fortune | Yr Awyrlu Brenhinol |
| Comander Steve Henaghen | Y Llynges Frenhinol |
| Darren Millar AS | Y Ceidwadwyr Cymreig |
| Cat Calder | Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin |
| Colette Musgrave | Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin |
| Jane Williams | Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges |
| Lisa Thipthorp | Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol |
| Ant Metcalfe | Y Lleng Frenhinol Brydeinig |
| Col Nick Beard | Y Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA) |
| Mike Bailey | Gwasanaeth Lles y Cyn-filwyr |
| Rachel Morgan | CLlLC |
| Neil Kitchiner | GIG Cymru i Gyn-filwyr |
| Louise Forman | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru |
| Nicola Davies | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru |
| Roy Brown | COBSEO |
| Steve Boswell | SSAFA |
| Shelley Elgin | Help for Heroes |
| John Shivas | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Ray Lock | FIMT |
| Caroline Cooke | FIMT |
| Fiona Jenkins | Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro |
| Jan Jones | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Cerys Gage | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Peter Evans | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Simon Protheroe | Llywodraeth Cymru – Tai |
| Huw Charles | Llywodraeth Cymru – Tai |
| Carl Spiller | Llywodraeth Cymru – Tai |
| Omer Williams | Llywodraeth Cymru – Tai |
| Megan Colley | Llywodraeth Cymru – Addysg |
| Liz Davies | Llywodraeth Cymru – Iechyd |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Howard Reed | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Naomi Alleyne | CLlLC |
| Y Cynghorydd Matthew Dorrance | CLlLC |

| | |
|---|---|
| Brigadydd Fraser | Y Llynges Frenhinol |
| Gary Haggaty | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Reg Kilpatrick | Llywodraeth Cymru – Llywodraeth Leol |
| Emma Williams | Llywodraeth Cymru – Tai |
| Jonathan Price | Gwasanaeth Lles y Cyn-filwyr |
| Awyr-gomodor Adrian Williams | Yr Awyrlu Brenhinol – anfonodd ei ymddiheuriadau oherwydd problemau technegol. |

**EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU**

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog yr aelodau i gyfarfod rhithiol cyntaf Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog. Gan nodi'r heriau parhaus a wynebwyd o ganlyniad i COVID-19, diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r holl aelodau am eu cyfraniadau tuag at frwydro yn erbyn y pandemig. Nododd y gwnaed cryn dipyn o gynnydd ers y cyfarfod diwethaf ym mis Medi 2019.

**EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A GYNHALIWYD AR 18 MEDI 2019**

2.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

**EITEM 3 – ADRODDIAD CYNNYDD AR GAMAU GWEITHREDU SY'N DEILLIO O GYFARFODYDD BLAENOROL**

3.1 Nododd y Gweinidog fod llawer o'r camau gweithredu blaenorol wedi cael eu cwblhau, neu eu bod yn mynd rhagddynt, ac y byddai diweddariadau pellach yn cael eu rhoi yn ystod y cyfarfod.

3.2 Rhoddodd Rachel Morgan y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynigion ar gyfer cynnal diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yn y dyfodol. Roedd saith Awdurdod Lleol oedd â diddordeb mewn cynnal y digwyddiad wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb. Er gwaethaf yr oedi o ganlyniad i'r pandemig, cadarnhaodd Rachel fod CLlLC yn ymgymryd â'r camau ymgynghori terfynol ac y byddai rhaglen dreigl 5 mlynedd o hyd yn cael ei rhoi ar waith maes o law.

3.3 O ystyried y diddordeb a gafwyd byddai angen ystyried Awdurdodau wrth gefn neu gael rhaglen dreigl 6 blynedd o hyd.

3.4 Gofynnodd Ant Metcalfe am eglurhad o'r cyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn ei roi ar gyfer y digwyddiad. Cadarnhaodd Jan Jones y byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn parhau ac y byddai £20k ar gael i'r Awdurdod Lleol dan sylw tuag at ddigwyddiad blynyddol a gynhelir yng Nghymru.

**EITEM 4 – DIWEDDARIAD GAN Y TRI GWASANAETH**

4.1 Cyflwynodd Dirprwy Gomander Nick Lock y diweddariad ar ran y Fyddin. Dros y 7 mis diwethaf, roedd y Rheolaeth Filwrol ar y Cyd wedi bod yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r GIG wrth ymateb i COVID-19. Nodwyd cymorth galluogrwydd cleientiaid gyda 1,000 o filwyr yn cynorthwyo ledled Cymru, gan gynnwys staff presennol o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Pheirianwyr Brenhinol Sir Fynwy. Er mwyn cynorthwyo Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, defnyddiwyd 60 o staff fel gyrwyr ambiwlans; a chawsant eu galw allan 6,000 o weithiau ar gyfer digwyddiadau COVID-19 a digwyddiadau brys. Bu staff presennol hefyd yn rhan o'r gwaith o adeiladu ysbytai maes ledled Cymru – yn benodol ysbyty Calon y Ddraig yng nghanol dinas Caerdydd – dosbarthu PPE o Faes Awyr Caerdydd a threfniadau profi symudol. Er bod llawer o'r tasgau bellach yn nwylo contractwyr, pwysleisiodd Dirprwy Gomander Lock y bu'n fraint cynorthwyo.

4.2 Yn amlwg, roedd rhaglen y Fyddin o weithgareddau ymgysylltu corfforol wedi'i gohirio gyda chyfleoedd rhithwir yn cael eu cynnal lle y bo'n bosibl. Roedd cyfres o gyflwyniadau ymgysylltu'r Fyddin wedi cael eu cyflwyno'n rhithwir, gyda mwy wedi'u trefnu ar gyfer yn nes ymlaen yn yr wythnos. Roedd y Cadetiaid hefyd yn gweithredu'n wahanol, gan ymgymryd â hyfforddiant rhithwir hyd nes yr ystyrir ei bod yn ddiogel dychwelyd at weithgareddau corfforol.

4.3 Cadarnhawyd bod yr holl hyfforddiant yng Nghymru bellach yn cael ei gynnal ar gapasiti llawn; gyda staff presennol yn cadw at ganllawiau'r Llywodraeth ar gyfer cadw pellter cymdeithasol.

4.4 Penodwyd swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ym Mrigâd 160 y Milwyr Traed (Cymru) a fyddai'n canolbwyntio ar y dathliadau ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref fel rhan o'i ddyletswyddau. Sefydlwyd tîm ymgysylltu rhanbarthol hefyd i roi cymorth ac arweiniad i ysgolion a oedd am gynnal gweithgareddau STEM.

4.5 Gan nodi'r diweddariad, diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Dirprwy Gomander am y cymorth a roddwyd yn ystod y pandemig.

4.6 Rhoddodd Awyr-lefftenant Ella Fortune ddiweddariad ar ran Awyr-gomodor Williams. Yn ystod y pandemig, bu'r Awyrlu Brenhinol yn cefnogi'r ymateb cenedlaethol ynghyd â pharhau â'i rôl o ran Amddiffyn yr Awyr a Symudedd Awyr byd-eang. Cadarnhawyd, er bod rhywfaint o'r hyfforddiant wedi'i atal, bod hyfforddiant i beilotiaid awyrennau ymladd wedi parhau ond y gwnaed newidiadau i sicrhau diogelwch. Roedd hyfforddiant technegol yn Sain Tathan wedi ailgychwyn ym mis Mai, gyda mesurau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau'r Llywodraeth. Bu'r Awyrlu Brenhinol yn cynorthwyo'r Rheolaeth Filwrol ar y Cyd drwy Swyddogion Cysylltu Gwydnwch yr Awyrlu Brenhinol gan ymgymryd â rolau amrywiol yn cynnwys cymorth logistaidd a chymorth cyfryngau a chynnig cymorth wrth gludo cleifion yn ôl yr angen. Darparodd sgwadron wrth gefn yr Awyrlu Brenhinol yng Nghymru, Sgwadron 614, 12 o

staff i fynd ar ddyletswyddau Lluoedd Cymorth Covid yng Nghymru ac o ganol mis Mehefin, cawsant eu defnyddio fel Uned Brofi Symudol yng ngogledd Lloegr o dan Frigâd 11 y Negeswyr.

4.7 Roedd digwyddiadau ymgysylltu wedi cael eu canslo, eu gohirio neu eu cyflwyno ar-lein. Roedd pecynnau ar-lein wedi cael eu llunio ar gyfer Diwrnod VE, Sioe Frenhinol Cymru a digwyddiadau i nodi 80 mlynedd ers Brwydr Prydain. Nodwyd bod digwyddiad i goffáu Brwydr Prydain wedi'i aildrefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2021, gan gynnig cyfle i drefnu gorymdaith a hediad seremonïol llawn. Roedd ymweliad blynyddol Aelodau'r Senedd â'r Awyrlu Brenhinol hefyd wedi'i ohirio a byddai'n cael ei aildrefnu ar gyfer gwanwyn 2021.

4.8 Yn ystod 2019, roedd rhaglen STEM yr Awyrlu Brenhinol wedi cyrraedd mwy na 90,000 o blant ifanc yng Nghymru. Dywedodd Awyr-lefftenant Fortune wrth yr aelodau eu bod yn gobeithio cyrraedd mwy na 100,000 o bobl ifanc yn 2021, er y byddai hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar allu ysgolion i gymryd rhan.

4.9 Mae lefelau recriwtio i'r Awyrlu Brenhinol yn parhau i wella gyda thua 5.5% o'r holl recriwtiaid yn hanu o Gymru, ac un o bob wyth o'r rhai a recriwtiwyd o Gymru yn cael eu recriwtio fel Swyddogion. Roedd ymgyrch recriwtio 2021 yn mynd rhagddi gyda thua 30,000 o geisiadau'n cael eu prosesu bob mis. Roedd cynlluniau i gynyddu niferoedd y recriwtiaid BAME a benywaidd ar waith.

4.10 Er bod Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol ar gau o hyd, nodwyd eu bod yn bwriadu ailagor, gan ddilyn canllawiau'r Llywodraeth, o fis nesaf ymlaen.

4.11 Rhoddodd Comander Steve Henaghen ddiweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Llynges Frenhinol yng Nghymru; gan nodi bod staff y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol yn parhau i gael eu defnyddio yng Nghymru yn cynorthwyo mewn perthynas â COVID-19 fel cynllunwyr milwrol a staff cysylltu.

4.12 Fel gyda'r Gwasanaethau eraill, roedd cyfleoedd rhithwir wedi disodli dulliau wyneb yn wyneb traddodiadol. Roedd y Cadetiaid Môr yn cael cyflwyniadau rhithwir ac roedd digwyddiadau coffáu ar gyfer Diwrnod VE a Diwrnod VJ wedi cynnwys cwisiau drwy apiau.

4.13 Roedd ymgyrch recriwtio ar gyfer Milwyr Rheolaidd a Milwyr Wrth Gefn yn mynd rhagddi a rhagwelwyd y byddai llawer o geisiadau'n dod i law.

4.14 Siaradodd Comander Henaghen am gynlluniau ymgysylltu'r Llynges Frenhinol. Roedd safle Twitter newydd wedi'i sefydlu ac yn 2021 rhagwelwyd y byddai hyd at 50 o Swyddogion yn cynnal ymweliadau ymgysylltu ledled Cymru.

4.15 Gofynnodd Darren Millar AS ynghylch Patrôl Cambria, a chadarnhawyd, er bod yr ymarfer eleni wedi'i ganslo, bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch cyflwyno'r digwyddiad yn 2021. Yn y cyfamser, roedd gweithgaredd

‘Cadw'r Fflam Ynghyn’ wedi'i drefnu yn ei le. Roedd 41 o dimau wedi cymryd rhan yn ystod 2019; y gobaith oedd gwella hyn yn 2021.

4.16 Nodwyd bod cyn-filwyr hefyd wedi cynorthwyo yn ystod cyfnod COVID-19. Un enghraifft o hyn oedd rôl Tîm Rubicon, yr oedd Ant Metcalfe yn rhan ohono. Esboniodd Ant ei fod, fel rhan o'r tîm hwnnw, wedi helpu i adeiladu ysbyty maes Calon y Ddraig. Roedd Tîm Rubicon hefyd wedi helpu i ddihalogi ambiwlansys.

4.17 Roedd y Dirprwy Weinidog yn awyddus i gofnodi pa mor ddiolchgar ydoedd i'r rheini a fu'n darparu cymorth i fynd i'r afael â'r pandemig, ac awgrymodd y byddai'n werth ystyried diolch iddynt yn gyhoeddus.

**EITEM 5 – DIWEDDARIAD GAN Y FFEDERASIYNAU TEULUOEDD**

5.1 Dywedodd Jane Williams wrth yr aelodau bod holl wefannau'r Ffederasiynau Teuluoedd yn cynnwys ardal oedd yn canolbwyntio ar COVID-19 a'r cymorth a oedd ar gael i deuluoedd staff y Lluoedd Arfog sy'n wynebu heriau yn ystod y pandemig.

5.2 Dathlodd Forces Families Jobs flwyddyn ers ei sefydlu yn ddiweddar ac roedd nifer y sefydliadau cysylltiedig yn cynyddu. Hyd yma, roedd 1,620 o swyddi wedi cael eu hysbysebu ac roedd 2,105 o ymgeiswyr wedi cofrestru. Roedd 610 o gyflogwyr wedi'u rhestru i gyd, ac o'r rhain, roedd 176 wedi cael dyfarniad Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr. Cadarnhaodd Jane, ymysg y sefydliadau a restrwyd ar y safle, bod dau Awdurdod Lleol yng Nghymru, sef Blaenau Gwent a Bro Morgannwg, wedi cofrestru.

5.3 Siaradodd Jane am adroddiad Andrew Selous ‘Living in our Shoes’ a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ac yn nodi y byddai'r Ffederasiynau Teuluoedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r rhain.

**Cam gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Ffederasiynau Teuluoedd ar yr argymhellion o ‘Living in our Shoes’.**

5.4 Lansiwyd y fenter ‘Cryfhau Teuluoedd’ ar 1 Medi 2020 ac roedd yn cynnig amrywiaeth o gymorth i holl staff y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol drwy gynghrair o elusennau a chyrff proffesiynol. Ymysg yr elusennau oedd yn rhan o'r fenter roedd Relate a Homestart ac er gwaethaf yr heriau daearyddol, roedd y Ffederasiynau Teuluoedd yn benderfynol o gyrraedd cynifer o deuluoedd gwasgaredig â phosibl.

5.5 Dywedodd Jane wrth yr aelodau bod menter ar waith ledled y DU yn cynnig llyfrau am ddim i deuluoedd cymuned staff presennol y llynges. Roedd Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges, a ariannwyd gan gronfa Libor i ddechrau ac a gafodd gyllid gan Elusen y Llynges a'r Môr-filwyr Brenhinol yn dilyn hynny, yn gweithio gyda Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru drwy ddarparu

llyfrau i deuluoedd staff y Lluoedd Arfog. Gofynnodd Jane i'r aelodau gysylltu os oeddent yn gwybod am sefydliadau eraill a fyddai'n cael budd o hyn.

5.6 Roedd Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges yn gweithio gyda'r artist Tim Mann i gyflwyno prosiect creadigol ‘Time on my Watch’. Bydd y prosiect, a gaiff ei lansio ym mis Hydref 2020, yn cynnwys dulliau artistig o adrodd hanes teuluoedd y Lluoedd Arfog a'i effeithiau. Nododd Jane ei bod yn awyddus i weithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru.

5.7 Rhoddodd Cat Calder ddiweddariad i'r aelodau ar faterion a oedd wedi codi ynghylch y polisi i gyflwyno gostyngiad o 50% mewn treth gyngor ar ail gartrefi pan fydd staff presennol yn byw mewn llety a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Daeth tri achos i law ac er bod dau o'r rhain wedi'u datrys, roedd un heb ei ddatrys o hyd. Roedd Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU wedi ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol yn Lloegr yn ddiweddar i'w hatgoffa o'r polisïau sydd ar waith.

5.8 Cadarnhaodd Colette Musgrave rwystredigaeth teuluoedd aelodau staff presennol a chytunodd i ymgysylltu â swyddogion yn y dyfodol er mwyn helpu i ddatrys y mater hwn. Gan ddiolch i Lywodraeth Cymru am ei chyllid grant Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol, nododd fod Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin wedi llwyddo i gael arian. Roedd canfyddiadau o brosiect Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

5.9 Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyrch yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer y dreth gyngor. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog i CLlLC ymgysylltu â phob Awdurdod Lleol i dynnu sylw at bolisi'r dreth gyngor mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog.

**CAM GWEITHREDU: CLlLC i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol i dynnu sylw at bolisi'r dreth gyngor mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog.**

**EITEM 6 – ADRODDIAD EFFAITH YMDDIRIEDOLAETH FORCES IN MIND (FIMT) 2019**

6.1 Rhoddodd Ray Locke ddiweddariad i'r aelodau ar flaenoriaethau presennol FIMT. Gan siarad am Adroddiad Effaith 2019, dywedodd Ray fod yr adroddiad yn cynnig cipolwg ar y cymorth a roddwyd gan FIMT. Nodwyd mai strategaeth FIMT oedd gweithio ar y cyd â sefydliadau ledled y DU i sicrhau bod cymuned y Lluoedd Arfog yn byw bywydau llawn. Argymhellwyd y dylai'r aelodau ddefnyddio'r Ganolfan Ymchwil Cyn-filwyr a Theuluoedd pe byddent am gael gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth am gymuned y Lluoedd Arfog.

6.2 Er bod FIMT yn darparu cyllid ledled y DU, roedd ei gwaith hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Cyflawnwyd prosiectau penodol yng Nghymru; roedd y rhain yn cynnwys:

- y treial rheoli ar hap 3MDR dwy flynedd o hyd ar gyfer cyn-filwyr sydd ag Anhwylder Straen Wedi Trawma nad yw'n ymateb i driniaeth
- dyfarnwyd cyllid i Tros Gynnal Plant i'w galluogi i gyflwyno treial tair blynedd o hyd o wasanaeth cymorth iechyd meddwl yn y gymuned i gyn staff y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd o Gaerdydd a Bro Morgannwg.

6.3 Tynnodd Ray sylw at y gwaith ymchwil 'Lifting Our Sights'. Caiff ei arwain gan Future Agenda a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ddatblygiadau a thueddiadau yn y dyfodol a all effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog yn 2030 a thu hwnt.

6.4 Un darn arall o waith y soniwyd amdano oedd yr 'Housing Policy Statement'. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Awst ac mae'n nodi safbwynt polisi FIMT ar anghenion tai cyn staff y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Tynnodd Ray sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gyn staff y Lluoedd Arfog mewn modd priodol er mwyn ceisio lliniaru materion tai.

6.5 Roedd FIMT wedi ariannu un o brif ymchwilwyr adroddiad Andrew Selous. Gan nodi materion pwysig y dylid eu hystyried, cadarnhawyd y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yn cyflwyno ymateb ffurfiol i'r adroddiad.

6.6 Siaradodd Caroline Cooke am adroddiad 'Ein Cymuned, Ein Cyfamod', a nododd y byddai'r gwaith i ddiweddaru'r adroddiad yn dechrau maes o law.

6.7 Canmolodd Darren Millar AS y gwaith a wnaed gan FIMT a chadarnhaodd fod gan ei Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a Chadetiaid ddiddordeb yn yr adroddiad ar hapchwarae a gyhoeddwyd gan Brifysgol Abertawe. Roedd yr adroddiad yn awgrymu y gall cyn-filwyr yn y DU wynebu risg uwch o ddatblygu problemau hapchwarae na'r rheini nad oeddent yn gyn-filwyr. Cadarnhaodd Peter fod gwybodaeth am GamCare bellach wedi cael ei chynnwys ar y Porth Cyn-filwyr, gyda chymorth yr Athro Simon Dymond.

6.8 Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch adnoddau a gallu GIG Cymru i Gyn-filwyr, cadarnhawyd bod £85k ychwanegol wedi'i ddarparu i gefnogi therapyddion cyn-filwyr. Byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2021 a byddai angen cynnal trafodaethau i ystyried adnoddau a gallu yn y dyfodol.

**EITEM 7 AR YR AGENDA – DIWEDDARIAD TÎM LLUOEDD ARFOG LLYWODRAETH CYMRU**

7.1 Cyflwynodd Cerys Gage y diweddariad ar ran tîm y Lluoedd Arfog. Nodwyd er na fyddai cynhadledd y Lluoedd Arfog yn cael ei chynnal yn gorfforol, bod opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer cynnal cynhadledd rithwir. Byddai unrhyw syniadau ar ffyrdd o gyflawni hyn yn cael eu croesawu.

7.2 Nododd Cerys fod y tîm wedi bod yn brysur dros y chwe mis diwethaf yn llunio ail Adroddiad Blynyddol y Lluoedd Arfog. Byddai'n cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno

gerbron y Senedd ar 30 Medi. Diolchwyd i'r aelodau am gyfrannu at yr adroddiad.

7.3 Pwysleisiwyd bod yr adroddiad yn rhoi darlun clir o'r cynnydd parhaus a wnaed mewn agenda cynyddol brysur. Roedd yn tynnu sylw at yr ymrwymiadau i'w cyflawni, yr oedd llawer ohonynt wedi'u datblygu o adborth gan Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, Ymarfer Cwmpasu'r Lluoedd Arfog ac ymrwymiadau parhaus, ac roedd yn adlewyrchu dull cydweithredol. Cadarnhawyd, er bod gwaith i'w wneud o hyd, bod Cymru ar y trywydd cywir.

7.4 Siaradodd Peter Evans am yr Ymarfer Cwmpasu a nododd y byddai diweddariad pellach yn cael ei roi ym mis Rhagfyr yn dilyn y diweddariad a rannwyd ym mis Mehefin. Roedd y tri grŵp gweithredu ar waith bellach – y Grŵp Pontio, y Grŵp Cyflogaeth a'r Grŵp Gwybodaeth, Ymwybyddiaeth a Chyllid. Esboniodd Peter mai un o'r prif faterion a godwyd oedd cysondeb hyfforddiant ar draws holl ranbarthau Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog a bod gwaith yn mynd rhagddo i symleiddio pecynnau hyfforddiant presennol. Roedd gwaith i lunio bwletin cyflogaeth penodol i Gymru hefyd yn mynd rhagddo. Roedd swyddogion yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa i gyflawni hyn.

7.5 Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i gaffael a diweddaru gwybodaeth ar wefan y Map Anghenion er mwyn sicrhau portread cywir o'r gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru.

7.6 Rhoddodd Peter ddiweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i atgyfnerthu Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy ei ymgorffori mewn cyfraith; o ystyried ei natur gymhleth, roedd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, partneriaid allweddol fel Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog a CLlLC, ynghyd â swyddogion cyfreithiol a swyddogion polisi.

7.7 Diolchodd John Shivas i swyddogion y Lluoedd Arfog am eu cymorth gyda chynigion deddfwriaethol y Lluoedd Arfog, gan bwysleisio y byddai'n cymryd amser i edrych ar bob maes polisi yn fanwl. Pwysleisiodd Jan ddyhead Llywodraeth Cymru i weld y ddeddfwriaeth ddrafft derfynol arfaethedig a chanlyniad yr ymgyngoriadau â phartneriaid allweddol cyn gwneud ymrwymiad cadarn.

**EITEM 8 AR YR AGENDA – SWYDDOGION CYSWLLT Y LLUOEDD ARFOG – CYNNYDD A MATERION ALLWEDDOL**

8.1 Rhoddodd Rachel Morgan ddiweddariad ar waith y Swyddogion Cyswllt, gan nodi bod parhad cyllid ar gyfer y rolau wedi bod yn faes o ddiddordeb sylweddol ymysg holl bartneriaid sector y Lluoedd Arfog. Cafwyd croeso mawr i'r £275k ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd nesaf, o fis Ebrill 2021, a byddai'n eu galluogi i barhau i wneud gwaith pwysig.

8.2 Wrth siarad am eu cynnydd parhaus, nodwyd bod y Swyddogion Cyswllt wedi cynorthwyo gyda diwrnod VE a diwrnod VJ yn eu cymunedau lleol. Er gwaethaf

yr amgylchiadau heriol, roedd y Swyddogion Cyswllt wedi parhau i ymgysylltu'n rhanbarthol, gan godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog yn ystod cyfnod COVID-19. Nodwyd nifer o gyflawniadau yn cynnwys:

- Cwestiwn am gymuned y Lluoedd Arfog mewn arolwg lleol i werthuso effaith COVID-19;
- Cymorth ymarferol ar achosion unigol mewn perthynas â materion tai a materion addysgol;
- Cyflwyno pecynnau croeso ar-lein i staff newydd ar y rheng flaen i godi ymwybyddiaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog;
- Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni'r dyfarniad Aur yn y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn;
- Cefnogi gwasanaethau craidd sy'n delio â materion COVID-19.

**EITEM 9 AR YR AGENDA – CYNLLUN 5 MLYNEDD AR GYFER DIWRNOD CENEDLAETHOL Y LLUOEDD ARFOG**

9.1 Trafodwyd yr eitem hon o dan eitem 3, gyda materion yn codi.

**EITEM 10 AR YR AGENDA – COVID-19, CYMORTH YN Y DYFODOL**

10.1 Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd y Dirprwy Weinidog y cyfnod heriol sy'n parhau ynghyd â'r ffyrdd nodedig roedd staff a chymuned y Lluoedd Arfog wedi cefnogi pobl Cymru.

10.2 Wrth ystyried cynlluniau sydd ar waith ar gyfer y dyfodol, esboniodd Roy Brown fod COBSEO wedi cynnal arolwg ar effeithiau COVID-19 ar y sector elusennol. Byddai'r ymarfer hwn yn cael ei ailadrodd yn y dyfodol agos.

**EITEM 11 AR YR AGENDA – DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF AC UNRHYW FUSNES ARALL**

11.1 O dan unrhyw fusnes arall, siaradodd Dirprwy Gomander Nick Lock am y Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a benodwyd yn ddiweddar. Cânt eu hariannu drwy Gronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog a byddant yn gweithio gydag SCCE Cymru i wella dealltwriaeth o'r materion a wynebir gan blant y Lluoedd Arfog.

11.2 Nododd Ant y byddai Apêl y Pabi yn mynd rhagddi eleni, ynghyd â'r Maes Coffa. Byddai'r ddau yn dilyn y canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol. Byddai swyddogion y Lluoedd Arfog yn parhau i hysbysu aelodau a phartneriaid am ganllawiau'r Llywodraeth.

11.3 Cytunwyd y byddai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru yn rhoi diweddariad ar STOMP yn y cyfarfod nesaf.

11.4 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r aelodau am eu mewnbwn a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Mawrth 2021.